# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **3 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol:

- Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth, a hynny o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliad gan y Cyngor (EC) Rhif 637/2008 a Rheoliad gan y Cyngor (EC) Rhif 73/2009.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig.

Mae swyddogaethau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r polisi amaethyddol cyffredin (PAC) wedi'u trosglwyddo gan yr offerynnau hyn fel bod modd i Weinidogion Cymru yn unig eu harfer.

Bydd offeryn ar wahân yn ymdrin ag unrhyw drosglwyddiad angenrheidiol o swyddogaethau deddfwriaethol.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r offerynnau'n diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol i ffermwyr o dan biler 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Mae'r OS hwn yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n ymdrin â chywiriadau o natur dechnegol ac nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau sylweddol o ran polisi, ond yn hytrach gywiriadau sy'n corffori telerau newydd (cymeradwy)

er mwyn sicrhau y bydd rhaglenni presennol yr UE yn parhau i gael eu cyllido am weddill cyfnod rhaglen 2014 hyd 2020 os na fydd unrhyw gytundeb.

Yr Offeryn Statudol hwn yw'r trydydd Offeryn Statudol cywiro gan y DU sy'n rhan o becyn ehangach ar gyfer cywiro'r PAC.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-common-agricultural-policy-direct-payments-to-farmers-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.